# Cymuned yw'r man cychwyn

Strategaeth Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol 2023-2030

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND










L'Arche Village, Gogledd Iwerddon

# Cynnwys

Rhagair y Prif Weithredwr .......... 4
Ein diben .......... 6
Blociau adeiladu cymuned .......... 7
Ein pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned .......... 8
Sut rydym yn gweithio .......... 13
Ein gwerthoedd .......... 14
Ein dulliau gweithio .......... 15
Sut y byddwn yn ariannu ac yn cefnogi cymunedau .......... 16
Mwy nag ariannwr .......... 17
Ein huchelgais ar gyfer 2030 .......... 18

## Dogfen ryngweithiol yw hon

Llywiwch drwy'r gwahanol adrannau gan ddefnyddio'r dolenni yn y bar uchaf ar ochr dde gwaelod pob tudalen.

### Delweddau clawr

Ochr dde uchaf: DanceSyndrome, Lloegr
Ochr dde isaf: YMCA North Staffordshire, Lloegr
Ochr chwith isaf: Y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd, Cymru

TF23_007

# Rhagair y Prif Weithredwr



**Mae ein strategaeth newydd wedi'i llywio gan wirionedd syml: cymuned yw'r man cychwyn.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 18,000 o unigolion a sefydliadau ledled y DU wedi rhannu eu syniadau gyda ni. Rydym wedi clywed pryderon clir ac amlwg am anghydraddoldeb, yr argyfwng hinsawdd, iechyd cymunedau a'r dyfodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Ond rydym hefyd wedi clywed am obeithion a breuddwydion cymunedau a'r gwaith anhygoel sy'n digwydd yn y llefydd yr ydym ni'n byw, gweithio ac yn gwneud ein tasgau beunyddiol.

Rydym ni'n gyffrous i gyhoeddi ein strategaeth newydd. Mae'n rhoi gwerth i'r cysylltiadau cymdeithasol a'r gweithgareddau cymunedol sy'n dod â ni ynghyd yng nghalon cymdeithas iach, hapus a llewyrchus. Dyma pam y mae ein strategaeth yn cadarnhau ein hymrwymiad i gefnogi cymunedau i lywio eu dyfodol.

Wrth i ni fentro ymlaen, rydym ni'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd gennym dros y 30 mlynedd diwethaf a byddwn ni'n parhau i ddefnyddio'r dull cynnig grantiau lleol a pherthynol y gwyddom sy'n cael ei werthfawrogi cymaint.

Ond hoffem wneud gwahaniaeth mwy. Gwyddom fod newid mwy mentrus yn gofyn am ffocws uwch a phartneriaeth ddyfnach. Nid ydym ni'n disgwyl cael yr holl atebion a thrwy fod yn fwy na chyllidwr, hoffem ddysgu a gweithio ag eraill.

Mae ein strategaeth wedi'i hadeiladu ar dair nodwedd.

Yn gyntaf, rydym ni'n cryfhau ein hymrwymiad i ariannu cymunedol ar lawr gwlad. Rydym wedi clywed am y gwerth enfawr y mae cymunedau'n ei roi ar hyn a gwyddom mai dyma le mae gan ein cyllid y cyrhaeddiad pellaf, lle mae'n creu'r lefel uchaf o gyfleoedd gwirfoddoli, ac yn datgloi'r prosiectau sy'n buddio'r rhan fwyaf o bobl. Dyma pam y byddwn ni nawr yn dyblu maint y grant posibl sydd ar gael yn ogystal â'r cyfnod y gellir cynnal unrhyw brosiect, fel ffordd o ail-ddychmygu ein rhaglen Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol ar gyfer y degawd hwn.

Yn ail, gwyddom fod cymunedau eisiau newid ehangach er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr a wynebir ganddynt. Rydym wedi gosod pedwar amcan a arweinir gan gymunedau, lle y byddwn ni'n ffocysu ein cyllid, dysgu ac ymdrechion i ddylanwadu ar newid. Byddwn ni'n creu partneriaethau newydd a dwfn, â'u gwreiddiau ym mhwrpas a llefydd, er mwyn cefnogi'r effaith fwyaf.

**Bydd ein hamcanion a arweinir gan gymunedau'n cefnogi cymunedau i:**

1. ddod ynghyd
2. dod yn gynaliadwy'n amgylcheddol
3. helpu plant a phobl ifanc i ffynnu
4. galluogi pobl i fyw bywydau mwy iach.

Yn drydedd, wrth i ben-blwydd Y Loteri Genedlaethol yn 30 oed nesáu, byddwn ni'n adeiladu ar y stori llwyddiant cenedlaethol yr ydym wedi bod yn rhan ohoni, gan gefnogi prosiectau trawsnewidiol ledled y DU. Fel Un Gronfa, rydym wedi adnewyddu ein gwerthoedd a'n dulliau gweithio i fod yn sbardun gweithredu. Byddwn ni'n addasu i amgylchiadau newidiol, fel y mae profiad diweddar wedi dangos i ni. Ond ni fyddwn ni'n caniatáu hyn i'n hatal rhag gweithredu a chefnogi ar gyfer newid mwy hirdymor a thrawsnewidiol lle mae angen hynny fwyaf.

Gyda'n holl waith byddwn ni'n defnyddio dull yn seiliedig ar degwch er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan fuddsoddi'r mwyaf lle mae'r angen mwyaf a helpu cymunedau i oresgyn rhwystrau. Byddwn ni'n rhoi'r effaith ar yr amgylchedd a byd natur wrth wraidd ein penderfyniadau, gan osod ein huchelgais o fod yn gyllidwr adfywiol amgylcheddol.

Mae ein strategaeth 2030 yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth hyd yn oed yn fwy yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Gan weithio mewn partneriaeth â chymunedau, cyllidwyr, y sector cyhoeddus a'r gymdeithas sifil, byddwn ni'n defnyddio angerdd, pwrpas ac arbenigedd ein pobl i gyflymu ein nod cyffredin i gryfhau cymdeithas a gwella bywydau.

**Mae'r daith yn dechrau nawr a chymuned yw'r man cychwyn.**

**David Knott, Prif Weithredwr**
**Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol**


Ellesmere Children's Centre, Lloegr

# Ein diben

**Cymuned yw'r man cychwyn.**

Lle mae cysylltiadau cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol yn ganolog i greu bywydau iachach, hapusach a chymdeithas lewyrchus. Dyna pam mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau anhygoel a arweinir gan y gymuned. A pham ein bod yn edrych i wneud mwy o wahaniaeth yn y blynyddoedd i ddod, drwy wrando ar gymunedau ac ymateb iddynt a thrwy ganolbwyntio ar gefnogi newid mwy beiddgar.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, byddwn yn dosbarthu £4 biliwn ychwanegol erbyn 2030. Cefnogi gweithgareddau sy'n creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy. Gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau ledled y DU.



"Mae chwalu rhwystrau ac annog deialog ar faterion yn ymwneud ag iechyd yn hanfodol. Mae cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi ein galluogi i weithio'n greadigol gyda phobl sydd â phroblemau iechyd i godi eu lleisiau a chwarae rhan hanfodol mewn meithrin ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth a dylanwadu ar newid ar bob lefel o'u cymuned."

**Ceridwen Hughes, Cyfarwyddwr (ochr dde pellaf)**
Same But Different C.I.C, Cymru

# Blociau adeiladu cymuned

Mae ein gwaith yn dechrau gyda'r blociau adeiladu sy'n galluogi cymunedau i gysylltu, meithrin perthnasoedd a gweithredu ar yr hyn sydd bwysicaf iddynt.

A phan ddaw pobl at ei gilydd ar draws cenedlaethau, cefndiroedd a phrofiadau – mae rhywbeth pwerus yn digwydd. Mae mudiadau cymdeithas sifil yn darparu mannau, gweithgareddau a chyfleoedd hanfodol i bobl ddod at ei gilydd. Y cysylltiadau hyn yw'r rhwymau sy'n cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau.

Dyna pam yr ydym yn ariannu ac yn cefnogi cymunedau i weithredu ar yr hyn sydd bwysicaf iddynt. A dyna pam rydym yn cynyddu ariannu ar gyfer prosiectau cymunedol, llai drwy ddyblu maint ein grantiau hawdd gwneud cais amdanynt, Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, hyd at £20,000.

Mae ein cymdeithas yn wynebu rhai heriau mawr a brys, sy'n gofyn am ymatebion beiddgar. Mae cymunedau'n mynnu newid mwy beiddgar, hirdymor, a mwy o bŵer i lunio'r dyfodol. Dyna pam rydym yn cynyddu ein ffocws a'n buddsoddiad mewn creu newid parhaol, trwy genadaethau wedi'u targedu sydd â'r nod o gryfhau cymdeithas a gwella bywydau. A pham y byddwn yn creu partneriaeth â chymunedau, mudiadau cymdeithas sifil ac eraill i adeiladu'r newid hwn.

Gwyddom nad oes gan bob cymuned y cyfleoedd na'r trefniadau cywir i ddod at ei gilydd. Felly, er bod ein hariannu ar gael i bob cymuned, byddwn yn buddsoddi fwyaf lle mae'r angen mwyaf, gyda phobl, lleoedd a chymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu.

Mae'r strategaeth hon wedi'i llunio gan ein gwaith o ddydd i ddydd, a gan yr hyn a glywsom yn ein sgyrsiau â chymunedau, mudiadau cymdeithas sifil ac eraill yn 2022, a oedd yn cynnwys dros 18,000 rhyngweithiad.

Fel y ffynhonnell unigol fwyaf o arian cymunedol yn y DU rydym yn helpu cymunedau i ffynnu. Ni sy'n darparu'r ariannu, nhw sy'n rhoi'r arian ar waith.

> "Pan fyddwn ni'n gwneud pethau'n iawn i blant, gallwn ni gael effaith sylweddol a pharhaol yn ein cymunedau. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu tanbrisio'n rhy aml. Yn ein sesiynau Storyplay, rydym ni'n darganfod eu dychymyg di-ben-draw, eu gallu enfawr i ddangos caredigrwydd, cynhwysiant a thegwch. Mae cefnogi hawliau plant o fudd i bawb."
>
> **Virigina Radcliffe, Cyfarwyddwr Artistig/ Prif Weithredwr, Ruby Zajac, Cynhyrchydd Creadigol**
> LicketySpit, Yr Alban

# Ein pedair cenhadaeth a arweinir gan y gymuned

Mae ein sgyrsiau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi llywio lle byddwn yn darparu mwy o ffocws wrth gefnogi cymunedau ac wedi llunio ein pedair cenhadaeth:

- cefnogi cymunedau **i ddod at ei gilydd**
- cefnogi cymunedau **i fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol**
- cefnogi cymunedau **i helpu plant a phobl ifanc i ffynnu**
- cefnogi cymunedau **i alluogi pobl i fyw bywydau iachach.**

Mae ein hariannu wedi cefnogi'r meysydd hyn erioed. Nawr rydym yn mynd ymhellach, gan ddod â ffocws o'r newydd i gael mwy o effaith.



Dates-n-Mates, Yr Alban

## Byddwn yn cefnogi cymunedau i ddod at ei gilydd

Mae cysylltiadau â ffrindiau, cymdogion a phobl sy'n rhannu diddordebau a phrofiadau yn allweddol i fywydau bodlon, hapus. Dyma'r cysylltiadau sy'n clymu cymunedau at ei gilydd. Y cysylltiadau sy'n creu'r rhwydweithiau a'r pŵer i gymunedau arwain a llywio newid. Mae cymunedau a mudiadau cymdeithas sifil hefyd yn creu mannau hanfodol lle gall pobl sydd â diddordebau, safbwyntiau a phrofiadau gwahanol ddod at ei gilydd.

Ond nid oes gan bob cymuned y trefniadau i helpu pobl i ddod at ei gilydd. Yn gynyddol, mae llawer o bobl yn teimlo'n ddatgysylltiedig neu'n ynysig.

**Byddwn yn ariannu prosiectau sy'n:**

- creu mannau hygyrch, croesawgar, boed yn ffisegol neu'n ddigidol, i bobl gwrdd
- cychwyn gweithgareddau deniadol a chynhwysol sy'n cefnogi cysylltiadau o fewn a rhwng pobl a chymunedau
- galluogi pobl o bob cefndir i lunio dyfodol eu cymunedau
- meithrin ymdeimlad cynyddol o ymddiriedaeth a pherthyn.

"Mae bodau dynol yn fodau cymdeithasol. Pan fydd pobl yn ynysig a heb gysylltiad, mae'n arwain at gymaint o bethau negyddol eraill – dirywiad mewn iechyd meddwl, pobl yn dod yn llai actif ac mae cymdeithas isel ei hysbryd yn ein disgwyl. Mae cydgysylltiad a chydlyniad yn allweddol."

**Alexis Ekwueme, Cydlynydd Prosiect**
Diverse Youth NI, Gogledd Iwerddon



## Byddwn yn cefnogi cymunedau i fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol

Newid yn yr hinsawdd yw'r "bygythiad mwyaf treiddiol i'r amgylchedd naturiol a chymdeithasau y mae'r byd erioed wedi'i weld" (CU, 2022). Er bod llawer o heriau amgylcheddol yn rhai byd-eang, mae potensial enfawr i gymunedau'r DU wneud gwahaniaeth yn lleol.

Byddwn yn sefydlu cefnogaeth ar gyfer gweithredu amgylcheddol ar draws yr holl ariannu, gan gynnwys cefnogi pob prosiect i ystyried yr amgylchedd hyd yn oed pan nad dyma yw eu prif ffocws. A byddwn hefyd yn buddsoddi mewn prosiectau amgylcheddol penodol, fel y gall cymunedau helpu i greu planed iach.

**Byddwn yn ariannu prosiectau sy'n:**

- lleihau allyriadau carbon ac effaith amgylcheddol negyddol
- creu effaith amgylcheddol gadarnhaol
- sefydlu mynediad cyfartal i'r amgylchedd naturiol
- gwella ansawdd mannau naturiol.

"Mae'n bwysig bod Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn parhau i gefnogi cymunedau i fod yn amgylcheddol gynaliadwy. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb i angen lleol a mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy brosiectau gweithredu ar lawr gwlad sydd wir yn gwneud gwahaniaeth i bobl a'r amgylchedd."

**Karen Healy (Chwith), Swyddog Amgylcheddol**
Creggan Country Park, Gogledd Iwerddon





## Byddwn yn cefnogi cymunedau i helpu plant a phobl ifanc i ffynnu

Mae gweithgareddau, profiadau a chefnogaeth gymunedol yn drawsnewidiol wrth gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ffynnu. Dylai fod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at gefnogaeth oedolion y gellir ymddiried ynddynt, gweithgareddau cyfoethogi, a chyfleoedd i gysylltu ag eraill.

Gall cymdeithas elwa'n aruthrol drwy wrando mwy ar farn pobl ifanc a thrwy gydnabod eu gallu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc gael cyfleoedd i gyfranogi yn eu cymuned a llunio'r gweithgareddau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u dyfodol.

**Byddwn yn ariannu prosiectau sy'n:**

- darparu mynediad i blant a phobl ifanc i fannau diogel i chwarae, i gyfranogi, i gymdeithasu ac i gael cefnogaeth
- creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc o bob cefndir gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol
- helpu plant a phobl ifanc i lunio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u cymunedau.

"Mae pobl ifanc wedi byw trwy un o'r cyfnodau anoddaf mewn hanes. Mae hyn wedi arwain at ddirywiad yn eu hiechyd meddwl, teimlad o unigedd ac ansicrwydd ar gyfer eu dyfodol.

Mae pobl ifanc angen cefnogaeth nawr yn fwy nag erioed ac rwy'n falch bod Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ymuno â ni i sicrhau eu bod yn flaenoriaeth."

**Ryan J. Matthews-Robinson, Sylfaenydd**
Poetic Unity, England



## Byddwn yn cefnogi cymunedau i alluogi pobl i fyw bywydau iachach

Gall bod yn rhan o gymuned eich gwneud yn iachach ac yn hapusach. Mae cyfleoedd enfawr i gymunedau gefnogi pobl i fyw bywydau iachach. A gwyddom fod gan bobl sydd â phrofiad o lygad y ffynnon, mudiadau cymdeithas sifil a'r sector cyhoeddus oll rôl i'w chwarae.

Byddwn yn buddsoddi mewn cymunedau sy'n meithrin lles ac iechyd corfforol a meddyliol da.

**Byddwn yn ariannu prosiectau sy'n:**

- cymryd agwedd ataliol
- galluogi cymunedau i gymryd camau cadarnhaol i wella iechyd a lles eu cymunedau
- helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd
- cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol i lunio gwell gwasanaethau iechyd

"Ni fyddwn i'n fyw heddiw heb y gefnogaeth a gefais gan Men Matter Scotland. Dwi wedi mynd o deimlo'n hunanladdol i ddatblygu ystyr a phwrpas yn fy mywyd yn raddol unwaith eto. Dwi bellach yn aelod o staff balch yn Men Matter Scotland ac yn helpu eraill sy'n teimlo fel yr oeddwn i – dyna i mi yw fy mhwrpas."

**Andrew MacAlistair, Gweithiwr Cymorth Cymheiriaid**
Men Matter Scotland, Yr Alban



# Sut rydym yn gweithio

Mewn byd sy'n symud yn gyflym, mae'n hanfodol ein bod ni'n hyblyg ac yn gallu addasu. Felly, dros gyfnod y strategaeth hon, bydd rhai pethau'n newid yn naturiol. Byddwn yn cydbwyso hyblygrwydd a'r gallu i addasu, ag eglurder ynghylch sut rydym yn gweithio.

Bydd creu partneriaeth â chymunedau, mudiadau cymdeithas sifil, y sector cyhoeddus, yn ogystal ag arianwyr eraill, a busnes yn hanfodol i lwyddiant. Byddwn yn gweithio'n benodol gyda mudiadau sydd â dealltwriaeth ddofn o gymunedau, pobl a materion. Ac yn yr holl brosiectau yr ydym yn eu cefnogi, rhaid i bobl o gymunedau gymryd rhan ystyrlon.

Mae ein gwerthoedd a'n ffyrdd o weithio yn rhoi eglurder ynghylch sut rydym yn gweithio gyda chymunedau, partneriaid a chydweithwyr, fel un Gronfa ar draws y DU. Mae ein pum gwerth yn adlewyrchu ein credoau craidd. Byddwn yn ymwreiddio ac yn gweithio i wireddu'r gwerthoedd hyn ym mhopeth a wnawn. Ac mae ein chwe ffordd o weithio yn disgrifio'r egwyddorion allweddol ar gyfer sut rydym yn ariannu ac yn gweithredu i gefnogi gefnogi cymunedau.




Horn of Africa People's Aid, Gogledd Iwerddon

# Ein gwerthoedd




**Rydym yn gynhwysol**

Gwyddom fod cymunedau a mudiadau yn gryfach pan fydd pawb yn gallu cymryd rhan, ac yn gweithio i gynyddu cynhwysiant.



**Rydym yn uchelgeisiol**

Credwn yng ngrym cymuned a chysylltiadau ac rydym yn uchelgeisiol ar gyfer ei botensial. Rydym yn cefnogi pobl a chymunedau i lunio'r dyfodol ac arwain newid.



**Rydym yn canolbwyntio ar effaith**

Rydym yn cael ein hysbrydoli gan gymunedau ac yn dysgu gyda nhw. Rydym yn gwrando, yn myfyrio ac yn defnyddio tystiolaeth i wella gwybodaeth, llywio camau gweithredu a chynyddu effaith.



**Rydym yn hyblyg**

Rydym yn croesawu ac yn cofleidio syniadau a dulliau gweithio newydd.



**Rydym yn dosturiol**

Rydym yn gweithio gyda gofal, ystyriaeth a gostyngeiddrwydd.

# Ein dulliau gweithio

**Rydym yn dechrau gyda chryfderau unigolion a chymunedau ar yn adeiladu arnynt.** Rydym yn gwrando ar gymunedau ac yn ymddiried yn eu galluoedd. Rydym yn cydweithio, yn darparu cymorth ond hefyd yn herio, i helpu i wneud i bethau gwych ddigwydd.

**Prosesau syml, dulliau gweithio agored.** Rydym yn gweithredu'n dryloyw, gan rannu gwybodaeth a gofynion yn agored. Rydym yn onest, yn glir ac yn syml, ac yn darparu ac yn croesawu adborth parchus.

**Agored i bawb, buddsoddi mewn angen.** Mae ein hariannu yn agored i bob cymuned, ond rydym yn buddsoddi fwyaf yn y rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydym yn gwrando ac yn defnyddio tystiolaeth i dargedu adnoddau i helpu cymunedau i oresgyn rhwystrau a chyflawni eu potensial.

**Gweithredu cadarnhaol dros yr amgylchedd, hinsawdd a natur.** Rydym yn ariannwr amgylcheddol adfywiol, felly mae ein penderfyniadau a'n buddsoddiad yn canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n gadarnhaol yn amgylcheddol, addasu i'r hinsawdd, gwytnwch hinsawdd ac adfer byd natur.

**Effaith a dysgu.** Rydym yn defnyddio ac yn buddsoddi mewn tystiolaeth, o lygad y ffynnon ac wedi'i dysgu, ac yn rhannu'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio. Rydyn ni'n greadigol, yn defnyddio ein dysgu i addasu ac yn helpu'r rhai rydyn ni'n gweithio gyda nhw i wneud yr un peth. Rydym yn canolbwyntio'r ariannu a ddarparwn ar ble y gall helpu i gael yr effaith fwyaf.

**Creu cysylltiadau, meithrin partneriaethau.** Lle bynnag y bo modd, rydym yn adeiladu partneriaethau sy'n dod â phobl at ei gilydd gyda diben cyffredin. Rydym yn annog pawb rydym yn gweithio gyda nhw i gydweithio a rhannu eu profiadau ag eraill.

# Sut y byddwn yn ariannu ac yn cefnogi cymunedau

## Dull seiliedig ar degwch i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb

Er bod ein hariannu ar gael i bob cymuned, byddwn yn defnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar degwch. Mae hyn yn golygu, ar draws ein holl waith gyda chymunedau a'n pedair cenhadaeth, y byddwn yn buddsoddi fwyaf mewn lleoedd, pobl a chymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu.

Nod ein gwaith yw cefnogi cymunedau i adeiladu ar eu cryfderau. Byddwn yn cefnogi'r hyn sydd bwysicaf i wahanol gymunedau, gan gynnwys buddsoddiad hirdymor i fynd i'r afael â heriau sydd wedi gwreiddio'n ddwfn.

## Mathau o ariannu

Byddwn yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n cefnogi ymagweddau newydd beiddgar, trawsnewid a newid hirdymor gyda ffocws penodol ar ein pedair cenhadaeth. Byddwn hefyd yn cynnig ariannu sy'n ymateb i gymunedau yn y pedwar maes cenhadaeth, ac yn ehangach ar yr hyn sydd bwysicaf i gymunedau.

Byddwn yn parhau i gynnig gwahanol fathau o ariannu, o grantiau hygyrch yn dechrau o £300 hyd at £20,000, i grantiau tymor hwy neu fuddsoddiadau strategol gyda phartneriaid. Yn nodweddiadol, bydd yr ariannu am rhwng un a phum mlynedd, gyda hyblygrwydd i gefnogi rhai prosiectau ac ymagweddau sy'n targedu newid tymor hwy neu drawsnewidiol hyd at 10 mlynedd.

Byddwn yn archwilio costau gwahanol gyda mudiadau i helpu i benderfynu ar y math mwyaf priodol o ariannu. Mae'r rhain yn cynnwys costau prosiect, cyfalaf, trefniadol, partneriaeth a datblygiadol.



"Cryfder y cysylltiad sy'n sail i bopeth y mae STAR Project yn ei wneud. Ein cysylltiadau cryf yw bod yn rhan o rywbeth mwy, ymdeimlad a rennir o 'rydym yn hyn gyda'n gilydd'. Mae'n hanfodol ein bod ni, fel sector, yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hyn ac yn cydnabod ei bŵer i leihau unigedd, gwella llesiant a chryfhau ein cymunedau."

**Sharon MacAulay, Prif Weithredwr**
STAR Project, Yr Alban

# Mwy nag ariannwr

Er mai ein hariannu yw'r ffordd bwysicaf yr ydym yn cefnogi cymunedau, rydym hefyd yn helpu mewn ffyrdd eraill:

- **Cefnogi**
  Byddwn yn rhoi cyngor a gwybodaeth i ddeiliaid grantiau i helpu i gynyddu eu heffaith a gwydnwch sefydliadol. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i ddeiliaid grantiau wella eu heffaith amgylcheddol, cynyddu cynhwysiant a harneisio budd arloesi digidol a data.
- **Dysgu**
  Byddwn yn defnyddio dulliau cymesur o gasglu data, tystiolaeth a dysgu, i greu mewnwelediadau defnyddiol a helpu i ddeall effaith. Byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgir er mwyn cynyddu dealltwriaeth o gymunedau sy'n ddefnyddiol i ddeiliaid grantiau, y rheini sydd â diddordeb mewn cyflawni a chefnogi newid a arweinir gan y gymuned, a'r gymdeithas ehangach.
- **Cynnull**
  Byddwn yn dod â gwahanol fudiadau ynghyd i archwilio heriau a datblygu cyfleoedd a phartneriaethau newydd.
- **Eirioli**
  Gan ddefnyddio ein safle a'n dylanwad, byddwn yn dathlu ac yn hyrwyddo grym cymunedau i gryfhau cymdeithas a gwella bywydau.
- **Partneriaeth**
  Gwyddom fod grym enfawr mewn cydweithio ag eraill. Byddwn yn creu partneriaethau gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol, arianwyr, llywodraethau, mudiadau cynrychioliadol cymdeithas sifil, ymchwilwyr, busnesau a chymunedau eu hunain.
- **Cyfranogiad**
  Byddwn yn cynyddu cyfranogiad mudiadau cymdeithas sifil a chymunedau wrth lunio ein gwaith. Bydd hyn yn ein helpu i gryfhau ein cefnogaeth i gymunedau.



"Mae cysylltedd cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer lles meddyliol a chorfforol. Mae'n grymuso alltudion, a phobl o bob cefndir, i nodi eu hanghenion a'u hemosiynau eu hunain ac yn galluogi empathi gan y rhai o'u cwmpas trwy rannu tebygrwydd a dathlu gwahaniaethau. Mae'n rhoi ymdeimlad o berthyn a chymuned."

**Saj Ghafoor OBE, Prif Weithredwr**
Multicultural Cumbria, Lloegr

# Ein huchelgais ar gyfer 2030

Yr uchelgais drwy'r strategaeth hon yw creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy, gan ariannu gweithgareddau a mudiadau sy'n cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau ledled y DU.

Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion lle mae'r angen mwyaf. Rydym yn edrych i wneud mwy o wahaniaeth yn y blynyddoedd i ddod, drwy wrando ar gymunedau ac ymateb iddynt, a chanolbwyntio mwy ar gefnogi'r effaith fwyaf.

Dyma ddechrau'r daith, a byddem wrth ein boddau pe gallai cymunedau, sefydliadau cymdeithas sifil, ac eraill adeiladu'r newid gyda ni. Os hoffech chi fod yn rhan o'n helpu ni i lunio cynlluniau a thrafod ein huchelgeisiau ar gyfer 2030, cysylltwch â itstartswithcommunity@tnlcommunityfund.org.uk

**Cymuned yw'r man cychwyn.**



UK Planetary Boundaries, Lloegr



Sol Café, Lloegr

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gorff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd i ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol.

Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn darparu'r rhan fwyaf o'n hadnoddau bob tro y byddant yn chwarae. Rydym yn un Gronfa sydd wedi'i lleoli mewn cymunedau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac mae ein gwaith yn adlewyrchu amrywiaeth y DU.

Ni yw'r ffynhonnell unigol fwyaf o ariannu ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn y DU. Rydym yn gwneud ein penderfyniadau ariannu'n annibynnol, ond rydym yn atebol i'r Senedd ac yn amodol ar gyfarwyddiadau polisi gan lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

## Dysgu rhagor

**Ewch i'n gwefan:** cronfagymunedolylg.org.uk
**E-bost:** cymru@cronfagymunedolylg.org.uk
**Ffoniwch ein llinell gyngor:** 0345 4 10 20 30
**Cyfnewid Testun:** 18001 plws 0345 4 10 20 30

Mai 2023